

Canfyddiadau cychwynnol ymgynghori ar Gynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023

Cyfrannodd **121** o unigolion neu sefydliadau tuag at yr ymgynghoriad cyhoeddus, gyda thrawsdoriad eang o ran oedran a lleoliad ar draws y sir.

Cafwyd **107** o ymatebion i'r ymgynghoriad drwy'r holiadur ar-lein, gyda'r gweddill yn cyfrannu drwy'r digwyddiadau cyhoeddus neu drwy anfon sylwadau yn uniongyrchol.

Fel rhaniad daearyddol, roedd nifer yr ymatebwyr fesul ardal llesiant fel a ganlyn:

- Bala – 2
- Bangor – 22
- Caernarfon – 29
- Dolgellau – 4
- Ffestiniog – 5
- Llŷn – 17
- Porthmadog – 8
- Tywyn – 10

(Roedd 10 wedi ymateb naill ai efo cod post y tu allan i Wynedd neu gydag un na ellid ei osod mewn ardal llesiant).

Dyma faint o ymatebwyr oedd ym mhob grwp oedran

- 18-29 – 15
- 30-39 – 26
- 40-49 – 27
- 50-59 – 18
- 60-69 – 16
- 70 neu hŷn – 3

Ni wnaeth 2 o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn yma.

Roedd y mwyafrif wedi ymateb i'r holiadur fel unigolion, gyda **4** wedi ymateb ar ran sefydliad neu fusnes: Anelu Aim Higher, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cartrefi Cymunedol Gwynedd a Phrifysgol Bangor.

Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda'r Parc, y Brifysgol a Chartrefi Cymunedol Gwynedd i drafod rhai sylwadau a chynigion cydweithio ymhellach, a gobeithir gallu adlewyrchu'r rheiny yn y Cynllun a camau gweithredu terfynol.

Ar y cyfan, mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol ac yn adeiladol iawn, gyda dim ond 17 ymatebwr yn anghytuno gyda'r dehongliad o'r heriau a'r cyfleoedd sydd yna i gryfhau'r Gymraeg yng Ngwynedd.

Ceir yma grynodedb gychwynnol o'r ymatebion a'r sylwadau a gafwyd fel rhan o'r ymgynghori, ynghyd â chynigion i'w hystyried wrth lunio'r Cynllun Hybu terfynol.

1. Dehongliad o'r heriau cyffredinol (tudalennau 2 a 3 y Cynllun)

Roedd yr adran yma wedi ei rannu i ddau gwestiwn – yn cyntaf yn gofyn iddynt a oeddynt yn cytuno gyda'r weledigaeth, a'r ail yn gofyn a oeddynt yn teimlo ein bod wedi methu unrhyw beth. Ymdriniwn â'r ymatebion gyda'i gilydd yma, gan fod yr atebion yn delio gyda'r un materion.

1.1 Prif themâu a natur y sylwadau:

- **Diffyg cyfleoedd a diffyg defnydd**
- **Mewnfudo a chefnogi ddysgwyr**
- **Rôl technoleg**

Diffyg defnydd a diffyg cyfleoedd oedd y thema mwyaf cyffredin wrth ateb a oeddynt yn cytuno neu beidio gyda'r heriau a nodwyd yn y ddogfen ddrafft, a hynny o safbwynt unigolion ac hefyd gan gyrff a sefydliadau. Mae'r heriau a nodwyd gennym yn y Cynllun yn amlwg i gyd yn bethau sydd yn dylanwadu ar ddefnydd unigolion, a chyfeirir at y diffyg cyfleoedd mewn sawl maes, felly rydym yn fodlon ein bod yn delio gyda'r mater hwn.

Wrth edrych ar yr ymatebion i'r ddau gwestiwn sydd yn ymwneud efo'r heriau a'r cyfleoedd, mae dwy thema yn amlygu eu hunain, sef dylanwad **mewnfudo a thechnoleg**.

Mewnfudo a chefnogi dysgwyr:

O'r 60 ymateb a nodwyd ar gyfer y cwestiwn oedd yn holi a oeddynt yn teimlo ein bod wedi methu unrhyw heriau, roedd 22 yn ymwneud efo "mewnfudwyr" a faint o gefnogaeth sydd ar gael i bobl sydyn symud i mewn i'r ardal i allu dysgu'r iaith.

Roedd yna bwyslais cryf yn yr ymatebion hefyd ar y diffyg cyfleoedd ar gyfer dysgu'r Gymraeg, a'r ddiffyg cefnogaeth i bobl sydd ag awydd i ddysgu. Mae'n deg dweud nad yw'r ddogfen ddrafft, o adlewyrchu, yn rhoi digon o sylw i'r gefnogaeth a'r anogaeth y gellir ei roi i newydd-ddyfodiaid i Wynedd. Mae dylanwad Cyngor Gwynedd yn gyfyng yn y maes hwn, ond mae neges gryf yma i'w rhannu gyda sefydliadau partner megis Cymraeg i Oedolion.

Roedd nifer o'r sylwadau hefyd yn cyfeirio yn benodol at y cyswllt rhwng gallu ieithyddol a'r gallu i gael swyddi o fewn y sir, a chyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg wrth weithio. Er enghraifft:

"You challenge is mostly lack of inclusion for non Welsh speakers. Only Welsh speakers can access public services jobs but when the nearest Welsh classes are a 20 mile round trip to the nearest town it is completely impractical to learn Welsh in your spare time. If you had a 'learn on the job' scheme then you could employ the best person for the job rather than the best Welsh speaker for the job. It is much easier to learn a language when you are immersed in it every day opposed to an hour once a week."

"I think more support to people who have just moved to the area and welsh is not their first language should be given support when applying for work as it seems to be a barrier even if people are willing to attend weekly language classes this should be taken in to account when applying for work within Gwynedd and not be a barrier because you have to be at a certain lever . If people are willing to learn the language then this should be taken in to account "

“The difficulty for those who cannot speak Welsh to access Welsh language jobs. There isn’t enough done to help people learn and access those jobs including support by employers to take on learners and help them improve “

Eto, mae neges gryf yma i’w throsglwyddo i gynlluniau’r llywodraeth – Cymraeg Gwaith – ond mae neges yma i Gyngor Gwynedd hefyd a her i ni feddwl am sut rydym yn codi ymwybyddiaeth am y cyfleoedd sydd ar gael o fewn y Cyngor ei hun i gefnogi dysgwyr ac i ddatblygu sgiliau.

Rôl technoleg:

Er bod sylw yng nghorff y ddogfen ei hun am rôl technoleg, nid oeddem wedi ei gynnwys yn yr heriau a chyfleoedd ar gychwyn y ddogfen. Efallai bod werth ystyried cynnwys nod cyffredinol i gynyddu defnydd o’r Gymraeg mewn technoleg.

1.2 Cynigion neu sylwadau y dylid eu hystyried?

- i) A ddylid rhoi mwy o bwyslais yn y ddogfen ar y gefnogaeth a roddir i newydd-ddyfodiaid a rhai sydd yn barod i ddysgu’r Gymraeg?
- ii) A ddylid ystyried cynnwys nod i godi ymwybyddiaeth am y cyfleoedd a’r cynlluniau sydd ar gael i gefnogi dysgu tra’n gweithio – o fewn y Cyngor a thu allan?
- iii) A ddylid cynnwys nod cyffredinol ar gyfer cynyddu defnydd o’r Gymraeg mewn technoleg?

2. Y weledigaeth (tudalen 4)

Roedd **86** allan o’r **104** o ymatebion i’r holiadur yn gefnogol i’r weledigaeth gyffredinol a nodir yn y Cynllun.

Eto, mae cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid a dysgwyr yn amlygu ei hun yn yr ymatebion i’r adran hon.

Mae’n anorod bod rhywfaint o sylwadau negyddol mewn ymateb i’r cwestiwn hwn (a’r cynllun yn gyffredinol). Mae ambell un yn mynegi anfodlonrwydd bod y Cyngor yn gwario arian ar y Gymraeg ar draul meysydd eraill o flaenoriaeth ac mae ambell sylw yn nodi bod y cynllun yn gwahaniaethu yn erbyn y di-Gymraeg a bod gwrthio’r agenda yn debygol o arwain at fwy o raniad mewn cymunedau ac agweddau “dall ac ynysig” (“blinkered and insular attitude”). Mae’n bwysig ein bod yn cadw’r sylwadau hyn mewn cof, ac yn sicrhau bod pwyslais y Cynllun Hybu ar gydraddoldeb a chyfle cyfartal i bawb.

3. Meysydd Blaenoriaeth Unigol y Cynllun Hybu

Gofynnwyd yr un set o gwestiynau ar gyfer pob maes blaenoriaeth, sef:

1. Yda chi’n cytuno efo’r weledigaeth yn y maes?
2. Yda chi’n cytuno efo’r dehongliad o’r hyn sydd angen digwydd?
3. Oes yna gyfleoedd eraill y dylem roi sylw penodol iddynt yn y maes yma?

Maes Blaenoriaeth 1: Iaith y Cartref

Crynodeb:

Roedd 81 allan o 107 ymateb i'r holiadur yn cytuno efo'r weledigaeth yn y maes yma.

Dewisodd 30 nodi cyfleoedd neu sylwadau ychwanegol.

Prif themâu a natur y sylwadau:

- ***Cyfleoedd sydd yn cynnwys pawb a ddim yn dieithrio***
- ***Mwy o gefnogaeth i rieni ddysgu ochr yn ochr efo'u plant***

Roedd nifer o sylwadau pellach yn y maes yma yn cyfeirio at feysydd gwaith neu gynulleidfa darged oedd yn cael sylw mewn rhannau eraill o'r cynllun e.e. "Cynnydd mewn cefnogaeth i fudiadau gwirfoddol sy'n gweithredu yn Gymraeg gyda phlant a phobl ifanc". Mae hyn yn awgrymu bod angen bod yn fwy eglur ynghylch pwy yw'r gynulleidfa darged yn y weledigaeth ar gyfer y maes blaenoriaeth yma.

Mae nifer o sylwadau hefyd ynghylch cynhwysiad a sut rydym yn mynd ati i gynnwys siaradwyr di-Gymraeg mewn gweithgareddau heb iddynt deimlo eu bod yn cael eu hynysu. Roedd pryder yn cael ei fynegi unwaith eto nad oes digon o gyfleoedd i rieni sydd ag awydd i ddysgu Cymraeg.

Bydd gweithredu yn y maes hwn yn dibynnu'n fawr ar gydweithio gyda phartneriaid megis y Mudiad Meithrin, a sawl ymatebydd yn cydnabod pwysigrwydd ymyrraeth gynnar a dylanwadu ar rieni gyda babanod, sydd yn cyd-fynd gyda'n gweledigaeth.

Mae ambell sylw, fodd bynnag, yn gofyn i ni edrych a yw ein gweledigaeth ar gyfer y maes hwn yn rhy gyfyng ei gwmpas. Gweler y sylw isod:

"Fel mam i ddau aeth nol i'r gwaith ar ôl genedigaeth doeddwn i ddim yn mynychu sesiynau Cylch Meithrin, sesiynau stori a chan mewn llyfrgelloedd etc. Byddai gwytodaeth am lle i gael adnoddau a gweithgareddau penwythnos wedi o help i mi."

Cynigion neu sylwadau y dylid eu hystyried?

- i) A ddylid ystyried cynnwys targed penodol yn y cynllun gweithredu i greu rhwydwaith, fydd yn cynnwys partneriaid allweddol yn y maes, er mwyn cydlynu ymdrechion ac adeiladu ar brofiad blaenorol yn y maes?
- ii) A ddylem ystyried sut y gallwn ddylanwadu ar yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd yn cael eu cynnig i rieni a theuluoedd estynedig i ddefnyddio a dysgu'r Gymraeg gyda'u plant ifanc, er mwyn sicrhau bod pawb yn cael eu cynnwys, a bod grwpiau cymunedol yn cael eu gweld fel cyfleoedd cymdeithasu a dysgu yn hytrach na grwpiau iaith yn unig?
- iii) A ddylem addasu geiriad y trydydd pwynt bwled "Cynnydd yn nifer y rhieni sydd yn dysgu rhywfaint o Gymraeg ac yn defnyddio'r sgiliau hynny gyda'u teuluoedd" – naill ai i fod yn diffinio'r "rhywfaint" yn well, neu i newid y pwyslais i fod ar gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer dysgu fel teulu, yn hytrach na chynnydd yn nifer y rhieni? Drwy newid y pwyslais byddai'r amcan yn cynnwys y teulu cyfan, ac yn cynnwys elfen o dynnu sylw a chodi ymwybyddiaeth at y cyfleoedd sydd ar gael i rieni a theuluoedd ddysgu ochr yn ochr a'u plant.

Maes Blaenoriaeth 2: Iaith dysgu

Crynodeb:

Roedd 78 allan o 107 ymateb i'r holiadur yn cytuno efo'r weledigaeth yn y maes yma, a 76 yn cytuno efo'r dehongliad o'r hyn sydd angen digwydd nesaf.

Dewisodd 22 o bobl gynnig sylwadau neu syniadau yn y maes hwn

Prif themâu a natur y sylwadau:

- **Angen sylw penodol ar addysg uwchradd**
- **Angen sicrhau bod digon o gyfleoedd i barhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg**
- **Pwysigrwydd y Gymraeg fel sgil a'r cyswllt efo byd gwaith.**

Roedd nifer fawr o'r sylwadau yn ymwneud yn benodol gydag addysg uwchradd, ac yn cynnwys sylwadau am yr angen am "fwy o bwyslais ar y Gymraeg" a "parhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu astudiaethau 6ed dosbarth", ond hefyd sylwadau am rôl athrawon a'r angen iddynt fod yn "ymwybodol o werth astudio drwy gyfrwng y Gymraeg" er mwyn iddynt allu rhoi'r anogaeth gywir i'r disgyblion.

Mae cynllun y Strategaeth Iaith Uwchradd yn mynd i'r afael â rhai o'r materion a godir, ond wrth gwrs mae'r cynllun hwnnw yn ei ddyddiau cynnar, ac ymwybyddiaeth am ei fwriad a'i amcanion yn isel iawn ar hyn o bryd. Bydd angen cadw rhai o'r sylwadau hyn mewn cof wrth lunio'r cynllun gweithredu a gosod blaenoriaethau'r cynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Ceir ambell sylw am y siarter cynradd hefyd, sydd yn awgrymu bod dal gwaith i'w wneud i godi ymwybyddiaeth ymysg rhieni am y Siarter.

Teimlad o "orfodaeth" ymysg yr ymatebion, a theimlad nad oes digon o bwyslais ar ddatblygu sgiliau'r Saesneg. A chydabod mai strategaeth i hybu'r Gymraeg yn benodol yw hon, mae sylwadau fel hyn yn awgrymu bod diffyg dealltwriaeth am y polisi addysg a'r nod i greu dinasyddion "hyderus ddwyieithog". Mae ambell sylw yma hefyd yn awgrymu diffyg dealltwriaeth neu ymwybyddiaeth ymysg rhieni am waith y Siarter iaith.

Cynigion neu sylwadau y dylid eu hystyried?

- i) A ddylem ystyried ehangu'r nod o wella'r cyswllt gyda byd gwaith i gynnwys ysgolion hefyd (nid sector galwedigaethol yn unig fel y mae yn Cynllun ar hyn o bryd)?
- ii) A ddylem ni ystyried cynnwys codi ymwybyddiaeth athrawon am eu cyfraniad at y weledigaeth ehangach fel nod strategol?
- iii) A ddylem roi blaenoriaeth i waith ymchwil pellach i ddeall patrymau dewisiadau iaith disgyblion?

Maes Blaenoriaeth 3: Iaith Gwaith a Gwasanaeth

Crynodeb:

Roedd 78 allan o 107 ymateb i'r holiadur yn cytuno efo'r weledigaeth yn y maes yma, a 73 yn cytuno efo'r dehongliad o'r hyn sydd angen digwydd nesaf.

Dewisodd 17 o bobl gynnig sylwadau neu syniadau ychwanegol yn y maes hwn

Roedd yr ymatebion hefyd yn cynnwys ymateb ar ran cyrff sydd yn berthnasol i'r maes hwn: Parc Cenedlaethol Eryri, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Cartrefi Cymunedol Gwynedd a Prifysgol Bangor

Prif themâu a natur y sylwadau:

- **Gwell cefnogaeth i fusnesau a dysgwyr**
- **Technoleg**
- **Iaith syml a dealladwy**
- **Sylw cyfartal ar y sector gyhoeddus a preifat**

Mae dau sylw penodol yn cael ei wneud nad oes llawer o sôn am dechnoleg cyn yr adran hon, ac fel mewn maes blaenorol ceir nifer o sylwadau am gyfleoedd i unigolion ddysgu'r Gymraeg tra yn gweithio. Mae cynlluniau yn bodoli, dan nawdd y Llywodraeth, ond oes peryg nad ydynt yn cyrraedd y manau sydd angen iddynt yng Ngwynedd?.

Cynigion neu sylwadau y dylid eu hystyried?

- i) A ddylid ystyried sut mae rôl technoleg yn cael ei adlewyrchu yn y gwahanol feysydd a beth yw rôl y Cyngor yn hyn?
- ii) A ddylid gosod nod penodol i edrych ar y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer busnesau ac unigolion i gynyddu defnydd o'r Gymraeg, gan edrych ar strategaeth dargedu benodol ar gyfer Gwynedd ar y cyd gyda darparwyr Cymraeg i Oedolion a Chymraeg Gwaith?

Maes Blaenoriaeth 4: Iaith y Gymuned

Crynodeb:

Roedd 75 allan o 107 ymateb i'r holiadur yn cytuno efo'r weledigaeth yn y maes yma, a 72 yn cytuno efo'r dehongliad o'r hyn sydd angen digwydd nesaf.

Prif themâu a natur y sylwadau:

- **Cynhwysiad – pwysig bod pawb yn teimlo yn rhan o weithgarwch**
- **Perchnogaeth gymunedol (“anogaeth dim ymyrraeth”)**
- **Cefnogaeth i ddysgwyr, a chefnogaeth cyfieithu**
- **Cydweithio gyda chyrrff eraill**

Yn anorfod roedd sylwadau yn yr ymgynghoriad ynghylch y penderfyniad i newid y gwasanaeth ieuenctid a chau'r clybiau ieuenctid, a beth fydd effaith hyn ar y Gymraeg yn y gymuned. Gan fod y cynllun drafft wedi ei ysgrifennu cyn derbyn y penderfyniad hwnnw, nid oedd yn bosib manylu ar unrhyw flaenoriaethu yn y maes hwnnw, ond bydd angen i'r cynllun terfynol gynnwys sylw penodol at waith ieuenctid a'u rôl wrth gynnal y Gymraeg yn y gymuned.

Mae dau sylw yn nodi bod angen sicrhau perchnogaeth leol a chan bobl ifanc, a'i bod yn bwysig nad yw digwyddiadau yn "troi yn rhywbeth ffurfiol, polisi", ac mae hyn yn cyd-fynd gydag egwyddor hunaniaith o geisio arfogi a chydweithio, yn hytrach na darparu yn uniongyrchol ar ran y gymuned, ond efallai bod lle yn y cynllun terfynol i nodi'r egwyddor hwn yn fwy eglur.

Cynigion neu sylwadau y dylid eu hystyried?

- i) Cynigir newid geiriad y trydydd pwynt bwled yn y weledigaeth ar gyfer yr adran hon i'w wneud yn glir mai'r nod yw dylanwadau ar weithgareddau sydd yn gweithredu yn uniaith Saesneg, er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg a sicrhau eu bod yn cael eu gweld fel gweithgareddau dwyieithog, ac nid uniaith.
- ii) Dylid ystyried y cynigion cydweithio penodol sydd yn yr ymatebion – yn benodol gyda Phrifysgol Bangor/Pontio a'r Parc Cenedlaethol – ac ystyried sut y gallwn drosglwyddo'r syniadau yn weithredoedd neu nodau penodol ar gyfer y cynllun hybu terfynol.
- iii) A ddylid bod yn fwy eglur ynghylch pwy yw'r cyfranwyr yn y maes hwn – y tu hwnt i hunaniaith – a nodi sut rydym yn bwriadu cydweithio gyda chymunedau e.e. gosod nod o ffurfio fforwm gymunedol fydd yn gallu bod yn rhan o osod blaenoriaethau'r fenter ar gyfer y 3 blynedd nesaf (cylch ariannu)?

Maes Blaenoriaeth 5: Ymchwil a Thechnoleg –gosod y seiliau cywir

Crynodeb:

Roedd 67 allan o 107 ymateb i'r holiadur yn cytuno efo'r weledigaeth yn y maes yma, a 64 yn cytuno efo'r dehongliad o'r hyn sydd angen digwydd nesaf.

Nid oedd y ddogfen ddrafft yn cyfeirio yn benodol at ddatblygu'r berthynas gyda Phrifysgol Bangor, er ein bod yn ymwybodol o'r gwaith da sydd yn digwydd yno – yn enwedig werth ystyried y maes yma. Yn dilyn sylwadau yn yr ymgynghori, a sgwrs bellach gyda chynrychiolwyr y Brifysgol, gobeithir gallu manylu mwy ar y berthynas a'r cyfleoedd yn y ddogfen derfynol.

Cynigion neu sylwadau y dylid eu hystyried?

- i) A ddylem ystyried cynnwys pwynt bwled ychwanegol sydd yn dweud rhywbeth tebyg i ... "Hybu datblygiad technolegau newydd ar gyfer y Gymraeg" – h.y. ein bod yn edrych ar gynlluniau neu ymgyrchoedd posib sydd yn edrych ar gyfraniad y Cyngor at ddatblygu a thyfu'r sector meddalwedd yng Ngwynedd.
- ii) A ddylid cynnwys nod ychwanegol sydd yn ymwneud efo defnydd cyrff cyhoeddus (ac ysgolion) o feddalwedd Cymraeg – neu ei gynnwys fel rhan o'r maes Gwaith a Gwasanaethau?

4. Camau nesaf:

Bydd yr holl sylwadau yn cael eu hystyried wrth i ni fynd ati i lunio'r Cynllun terfynol. Mae rhai syniadau neu awgrymiadau penodol y byddwn hefyd yn ceisio eu ymgorffori yn y cynllun gweithredu fydd yn manylu ar sut y byddwn yn gweithredu'r weledigaeth.